

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward 5, Ysbyty Tywysoges Cymru,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-80535-915-9

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	24
4.	Y camau nesaf .....	29
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	30
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	36

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ward 5 yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 25 a 26 Ionawr 2023. Mae Ward 5 yn darparu gwasanaethau adsefydlu a gofal aciwt i gleifion yn dilyn strôc.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael ar y ward.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion a'u gofalwyr ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd. Hefyd gwelsom y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fod mor annibynnol â phosibl o ystyried eu cyflwr.

Er y gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol yn cael ei harddangos i'r cleifion a'u gofalwyr ar y ward ac yn yr ysbyty, ar y cyfan roedd diffyg gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos i'r cleifion am eu gofal ar ôl cael strôc yn benodol. Yn ogystal, roedd diffyg cyfarpar i hwyluso cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar y ward ar gyfer ymdrin â chwynion a phryderon. Fodd bynnag, dangosodd ymatebion gan y staff nad oeddent yn cael diweddariadau ar adborth a roddwyd i'r cleifion bob amser.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfarpar a ddarperir ar y ward i hwyluso cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i sicrhau y gall y cleifion ar y ward a'u gofalwyr gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am ofal ar ôl cael strôc yn hawdd
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar y ward
- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau therapi a ddefnyddir gan y cleifion ar y ward a chymryd camau addas i sicrhau eu bod yn ddigonol er mwyn darparu therapi i'r cleifion fel rhan o'u gofal
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i sicrhau y gall y cleifion ar y ward a'u gofalwyr gael gafael ar wybodaeth am broses gwyno'r bwrdd iechyd yn hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Gwelsom arferion canmoladwy i helpu i gynnal cyfrinachedd y cleifion yn ystod rowndiau bwrdd

- Gwelsom fod trefniadau arloesol ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ofalwyr sy'n byw i ffwrdd, gan ddefnyddio cysylltiad fideo
- Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fod mor annibynnol â phosibl o ystyried eu cyflwr.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr ysbyty a'r ward yn hygyrch i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, gwelsom fod cyfarpar o gwmpas y ward gan ei gwneud yn anniben.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu a niwed i feinweoedd ac i'w hatal rhag cwmpo. Hefyd, gwelsom fod trefniadau da ar waith i ddiwallu anghenion maeth a hydradu'r cleifion ar y ward.

Yn gyffredinol, roedd trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar y ward. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella rhai agweddau ar brosesau atal a rheoli heintiau, dulliau rheoli meddyginiaethau a rheoli gwybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r cleifion.

Yn ogystal, gwelsom fod angen gwella agweddau ar y gofal ar ôl cael strôc a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd yr uwch-aelodau o'r staff eisoes yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â gofal ar ôl cael strôc a gwnaethant ddisgrifio'r gwaith sylweddol a oedd yn mynd rhagddo er mwyn gwneud gwelliannau yn hyn o beth.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu, ond ni chawsom sicrwydd llwyr fod y staff yn uwchgyfeirio pryderon i'r staff perthnasol.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom fod cyfarpar yn cael ei storio yn yr ardal y tu allan i'r ystafell therapi ar y ward ac ni chawsom sicrwydd bod y swyddog tân yn cytuno â'r trefniant hwn.
- Gwelsom nad oedd meddyginiaethau a ddefnyddir ar y ward yn cael eu storio'n ddiogel bob amser, a oedd yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafael ar feddyginiaeth nad yw ar eu cyfer a'i llyncu.

Yn ogystal â'r achosion uchod lle mae angen sicrwydd ar unwaith, rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau storio ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol

- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i atgoffa'r staff i olchi eu dwylo yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a sicrhau y caiff blychau offer miniog eu newid pan fo angen
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i sicrhau y caiff polisiau ysgrifenedig eu hadolygu a'u diweddarau yn unol â rheolau amllder y bwrdd iechyd
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i sicrhau bod y staff yn rhoi gwybod i'r uwch-aelodau o'r staff am bryderon diogelu, fel y bo'n briodol
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i roi sicrwydd i'r staff yr ymdrinnir â'u pryderon
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i sicrhau bod y staff yn ymdrin â gwybodaeth y cleifion mewn ffordd sy'n sicrhau cyfrinachedd

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod archwiliadau o'r cyfarpar brys a'r troli sepsis yn cael eu cwblhau'n rheolaidd
- Roedd trefniadau da ar waith i atal y cleifion ar y ward rhag datblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd, i'w hatal rhag cwmpo ac i ddiwallu anghenion maeth a hydradu'r cleifion
- Roedd y staff yn glanhau cyfarpar a rennir yn ddiwyd
- Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r cleifion yn ystod amser bwyd a gwelsom enghraifft dda o ystyried ffyrdd o fodloni gofynion penodol claf o ran prydau
- Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol ac roeddent yn dangos tystiolaeth o'r ffordd roedd penderfyniadau wedi'u gwneud ar ofal y cleifion.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer monitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y ward ac adrodd ar hyn. Yn ogystal, roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu a disgrifiwyd camau cadarnhaol i wella'r gwasanaeth strôc a ddarperir i boblogaeth y bwrdd iechyd.

Cafwyd ymatebion cymysg gan y staff yn holiadur AGIC. Ar y cyfan, roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol mewn perthynas â'u rheolwr uniongyrchol a'r uwch-reolwyr, gwaith tîm, hyfforddiant, dulliau i roi gwybod am ddigwyddiadau a'r camau a gymerir gan y sefydliad o ran iechyd a llesiant. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn dangos bod angen gwneud gwelliannau o ran cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig a'r lefelau staffio ar y ward.



Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr ac roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod cydymffurfiaeth yn wael â hyfforddiant dadebru gorfodol, hyfforddiant symud a chodi a chario diogel a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nodwyd bod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant dadebru gorfodol, hyfforddiant symud a chodi a chario diogel a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn wael, a oedd yn golygu na chawsom sicrwydd bod digon o staff yn meddu ar y sgiliau gofynnol a chyfredol.

Yn ogystal â'r achosion uchod lle mae angen sicrwydd ar unwaith, rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid adolygu systemau ar y ward ar gyfer olrhain cynnydd camau gweithredu a nodir mewn cyfarfodydd staff a phan gaiff materion eu huwchgyfeirio er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i ymateb i'r sylwadau llai ffafriol a wnaed gan y staff yn ystod ein harolygiad, yn enwedig mewn perthynas â staffio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwnaeth y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC argymhell eu sefydliad fel lle i weithio ac roeddent yn teimlo bod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas â materion iechyd a llesiant
- Gwelsom dystiolaeth dda o waith tîm amlddisgyblaethol ac roedd y meddyg ymgynghorol arweiniol yn hyrwyddo gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur.

Nododd yr ymatebwyr eu bod yn fodlon ar eu gofal a'u triniaeth gyda phob un yn nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae pawb yma'n gweithio'n galed iawn, yn hwyliog bob amser wrth ryngweithio â ni ac yn rhoi hyder i'r cleifion eu bod yn cael gofal da.”*  
*“Mae'r staff yn gefnogol iawn. Mae fy ngofal wedi bod yn ardderchog.”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan yr uned. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Dydw i ddim yn gwybod sut y gallai wella. Mae pawb yma yn gweithio i safon uchel iawn, ac yn llwyddo i fod yn hwyliog drwy sifftiau hir hyd yn oed.”*  
*“Mwy o staff.”*

#### Cadw'n Iach

##### Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod diffyg gwybodaeth wedi'i harddangos i'r cleifion a'u gofalwyr mewn perthynas â strôc.

Fodd bynnag, roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn glir i ymwelwyr â'r ward am bwysigrwydd hylendid dwylo a'r rhagofalon sydd ar waith er mwyn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu.

Hefyd, gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos yn glir yn hysbysu'r cleifion, ymwelwyr a'r staff na chaniateir smygu yn unrhyw ran o'r ysbyty. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol i helpu i atal clefydau a achosir gan fwg ail-law.

## Gofal ag urddas

### Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd ac yn gwneud ymdrechion i gynnal eu hurddas. Gwelsom fod y llenni urddas wedi'u tynnu a bod drysau ciwbiclau, toiledau a chyfleusterau ymolchi yn cael eu cau pan oedd y staff yn darparu gofal personol.

Roedd y cleifion a welsom yn cael gofal da yn ôl pob golwg. Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i wisgo'r cleifion yn eu dillad dydd eu hunain yn hytrach na'u gadael yn eu pyjamas neu eu gynau urddas.

Gwelsom arferion canmoladwy yn ystod y rownd bwrdd yn y bore er mwyn helpu i gynnal cyfrinachedd y cleifion. Gwelsom fod drysau i faeau ac ystafelloedd ochr ar gau a bod sgriniau preifatrwydd yn cael eu defnyddio i atal staff ac ymwelwyr rhag mynd i mewn i'r ward pan oedd y rownd bwrdd yn mynd rhagddo.

Roedd y pedwar ymatebydd a gwblhaodd holiadur i gleifion yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Yn ogystal, roedd pob un yn teimlo bod camau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu adborth a sylwadau gan y staff sy'n gweithio ar y ward. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal ar y ward.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd diffyg cyfarpar i hwyluso cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos ar y ward i helpu'r cleifion i ddod o hyd i'r toiledau a'r chyfleusterau ymolchi. Roedd lluniau ar rai o'r arwyddion i helpu'r cleifion i adnabod yr ardaloedd hyn.

Cawsom wybod bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r staff i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ysbyty ac ar y ffordd i'r ward. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi'i harddangos ar y ward yn Saesneg yn unig. Cawsom wybod nad oedd unrhyw staff ar y ward yn gallu siarad Cymraeg. Ar y cyfan,

gwelsom nad oedd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ar y ward ac ni welsom dystiolaeth fod 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn siarad Cymraeg, nododd y mwyafrif o'r staff (8/10) a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur nad oeddent yn siarad Cymraeg.

Disgrifiwyd trefniadau i siarad â gofalwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am hynt eu hanwyliaid drwy gysylltiad fideo neu dros y ffôn, os ydynt yn byw ymhell i ffwrdd ac yn ei chael hi'n anodd ymweld â'r ysbyty.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom arwyddion clir i helpu'r ymwelwyr i ddod o hyd i'r ward a wardiau ac adrannau eraill yn yr ysbyty.

Hefyd, gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos am wisgoedd gwahanol y staff er mwyn helpu'r cleifion ac ymwelwyr i adnabod gwahanol aelodau o'r staff sy'n gweithio ar y ward ac yn ymweld â hi. Roedd enw rheolwr y ward wedi'i arddangos yn glir gyda manylion am sut y gellid cysylltu â'r rheolwr.

Roedd diffyg gwybodaeth wedi'i harddangos i'r cleifion a'u gofalwyr am ofal ar ôl cael strôc. Fodd bynnag, roedd Nyrs Strôc Arbenigol ar gael i siarad â'r cleifion a'u gofalwyr ac i ateb eu cwestiynau gofal am ofal ac adsefydlu ar ôl cael strôc. Hefyd, gwelsom fod staff y ward ac aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol yn rhoi esboniadau i'r cleifion a'u gofalwyr yn hyn o beth.

Roedd y pedwar ymatebydd a gwblhaodd holiadur i gleifion yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd.

Roedd y mwyafrif o'r staff (14/15) a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd un yn anghytuno.

## **Gofal amserol**

### **Mynediad Amserol**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn ymateb i geisiadau'r cleifion am gymorth. Fodd bynnag, gwelsom fod adegau pan oedd y cleifion wedi defnyddio clychau galw er mwyn gofyn am gymorth a bod oedi cyn i'r staff ymateb iddynt. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod hyn am eu bod yn brysur yn rhoi sylw i'r cleifion eraill.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom adolygu data'r Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel (SSNAP) am y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022 mewn perthynas â pherfformiad yr ysbyty o ran gofal ar ôl strôc. Dangosodd hyn

fod oedi mewn perthynas â nifer o agweddau ar ofal ar ôl strôc a ddarperir gan yr ysbyty.

Dywedodd pob ymatebydd a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym fod y staff wedi rhoi gofal iddynt pan oedd ei angen arnynt. Yn ogystal, roedd pob ymatebydd a atebodd y cwestiynau yn yr holiadur yn cytuno bod cloch galw am nyrs ar gael iddynt bob amser (3/3) a bod aelod o'r staff wedi dod atynt pan oeddent wedi defnyddio'r gloch (3/3).

Roedd ychydig dros 50% o'r staff (8/15) a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal angenrheidiol i'r cleifion, tra bo'r gweddill (7/15) yn anghytuno.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fod mor annibynnol â phosibl o ystyried eu cyflwr.

Roedd cyfarpar addas wedi'i ddarparu i'r cleifion ac yn cael ei ddefnyddio ganddynt er mwyn eu helpu i godi o'u gwely neu o gadair a cherdded.

Roedd pwyslais ar hybu annibyniaeth y cleifion ar ôl cael strôc. Gwelsom enghreifftiau da o waith tîm amlddisgyblaethol yn hyn o beth. Er bod ystafell therapi ddynodedig ar y ward, cawsom wybod nad oedd yn cynnig digon o le i ddarparu'r lefel o therapi y dylai'r cleifion ei disgwyl gan wasanaeth strôc dynodedig.

Cawsom wybod bod y rhan fwyaf o'r therapi yn cael ei ddarparu yn y ward, a oedd yn achosi heriau i'r staff am nad oedd llawer o le.

Roedd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur i gleifion yn cytuno bod y staff wedi rhoi dewis o ddefnyddio toiled, comôd neu badell wely iddynt pan oedd angen iddynt fynd i'r tŷ bach, a'u bod wedi'u helpu mewn ffordd sensitif.

### **Hawliau pobl**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u hawliau unigol.

Er bod cyfyngiadau ar waith oherwydd COVID-19, gwelsom fod perthnasau'r cleifion yn gallu ymweld â nhw, ar yr amod eu bod yn dilyn mesurau diogelwch.

Dyweddod yr uwch-aelodau o'r staff fod disgwyl i'r holl staff gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Gwelsom lefel dda o gydymffurfiaeth â'r hyfforddiant hwn.

Dyweddod y pedwar ymatebydd a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd. Yn ogystal, roedd pob un yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt a'u teulu a'u ffrindiau.

Hefyd, dywedodd y pedwar ymatebydd a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd nac wrth ei ddefnyddio.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff yr ymdrinnir â phryderon a chwynion a geir am y gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion ar y ward yn unol â gweithdrefn y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am broses gwyno'r bwrdd iechyd wedi'i harddangos yn y ward. Yn ogystal, nid oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos i'r cleifion a'u gofalwyr am sut y gallent gael cyngor a chymorth ar godi pryder neu wneud cwyn yn gyfredol.

Gwelsom fod y polisi (a'r gweithdrefnau cysylltiedig) wedi cael eu cymeradwyo a'u rhoi ar waith ym mis Hydref 2012. Yn ôl y ddogfen, dylai fod wedi cael ei hadolygu yn 2017. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd adolygiad wedi'i gynnal.

Hefyd, disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth o gwynion â thîm y ward a dysgu ar y cyd. Roedd y trefniadau rhannu gwybodaeth yn cynnwys drwy e-bost, drwy lyfr cyfathrebu a gynhelir gan y ward a thrwy gyfarfodydd y bydd rheolwr y ward yn eu mynychu. Fodd bynnag, dylid ystyried rhoi system ar waith i ddangos bod yr holl staff perthnasol ar y ward wedi gweld a darllen y wybodaeth a rennir drwy lyfr cyfathrebu'r ward.

Cawsom wybod bod staff o Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) yr ysbyty yn ymweld â'r ward yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth i'r cleifion a'u gofalwyr pe bai ganddynt unrhyw bryderon am y gofal a'r driniaeth a ddarperir. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau fod rheolwr y ward yn siarad â'r cleifion a gofalwyr yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw bryderon ac yn gwneud ymdrech i fynd i'r afael â'r rhain 'yn y fan a'r lle'.

Pan ofynnwyd a gaiff adborth ar brofiad y cleifion ei gasglu ar y ward, dywedodd 50% o'r staff (7/14) a atebodd y cwestiwn hwn fod adborth yn cael ei gasglu a dywedodd y 50% arall nad oedd yn cael ei gasglu (4/14) neu nad oeddent yn gwybod (3/14). Pan ofynnwyd a oeddent yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth y cleifion, dywedodd dros 50% o'r staff (8/14) a atebodd y cwestiwn nad

oeddent yn cael diweddariadau a dywedodd y gweddill eu bod yn cael diweddariadau (5/14) neu nad oeddent yn gwybod (1/14). Yn ogystal, pan ofynnwyd a yw adborth gan y cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn yr ysbyty, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (6/14) wrthym nad oeddent yn gwybod a dywedodd y gweddill fod hyn yn digwydd (4/14) neu nad oedd yn digwydd (4/14).

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr ysbyty a'r ward yn hygyrch i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd mynediad gwastad i brif fynedfa'r ysbyty ac roedd lifftiau yn rhoi mynediad i'r wardiau a'r adrannau hynny nad oeddent ar y llawr gwaelod.

Gwelsom fod angen ailaddurno rhai rhannau o'r ward. Roedd gwaith paentio yn cael ei wneud yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom fod y staff wedi gwneud ymdrech i sicrhau nad oedd unrhyw beryglon baglu ar y ward. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd digon o le storio ar y ward ar gyfer yr holl gyfarpar a oedd yn ofynnol gan fod cyfarpar o gwmpas y ward gan ei gwneud yn anniben.

Gwelsom fod cyfarpar a bocsys cardbord wedi'u storio yn yr ardal y tu allan i'r ystafell therapi ar y ward. Roedd ciwbicl a oedd yn cael ei ddefnyddio gan glaf yn yr ardal hefyd. Rhoddodd AGIC wybod i'r uwch-aelodau o'r staff a gymerodd gamau ar unwaith i symud y bocsys oherwydd y gallent beri risg o dân. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff y gellid storio cyfarpar ar olwynion yn yr ardal oherwydd bod modd ei symud yn hawdd pe bai tân er mwyn sicrhau bod y llwybr dianc yn glir. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i nodi'n glir yn yr asesiad risg tân diweddaraf ar gyfer y ward. Yn hytrach, roedd yr asesiad risg yn nodi na ddylai unrhyw lwybr dianc gael ei rwystro.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y swyddog tân wedi cytuno i storio cyfarpar yn yr ardal hon. Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith ynglŷn â'r mater hwn. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Er bod yr ymatebwyr yn yr holiadur i gleifion yn cytuno bod cloch i alw am nyrs ar gael iddynt bob amser, gwelsom nad oedd y gloch o fewn mynediad hawdd i rai o'r cleifion. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddent wedi gallu gofyn am gymorth pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y mwyafrif o'r staff (10/11) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Yn ogystal, roedd y mwyafrif (10/11) hefyd yn teimlo bod y staff cysylltiedig yn cael eu trin yn deg a bod y sefydliad yn sicrhau cyfrinachedd yn hyn o beth. Roedd y mwyafrif o'r staff (10/11) a atebodd y cwestiwn hefyd yn teimlo bod y sefydliad yn cymryd camau i ymateb i



ddigwyddiadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn codi eto. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r staff (9/11) a atebodd y cwestiwn yn cytuno eu bod yn cael adborth ar y newidiadau a wneir mewn ymateb i ddigwyddiadau.

### **Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion ar gyfer chwe chlaf a oedd yn cael gofal ar y ward yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr holl gleifion wedi cael asesiad wrth gael eu derbyn o ran eu risg o ddatblygu niwed pwyso a bod cynllun gofal priodol wedi cael ei roi ar waith. Hefyd, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael eu hail-leoli'n rheolaidd a bod y staff yn monitro cyflwr eu croen yn barhaus.

Gwelsom fod system wedi'i datblygu gan y staff i'w hatgoffa pan oedd angen ail-leoli cleifion unigol ac edrych ar gyflwr eu croen. Roedd yr arferion hyn yn ganmoladwy er mwyn hyrwyddo gofal amserol ac effeithiol i gleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd.

Gwelsom fod cyfarpar lleddfu pwysau addas, megis matresi arbenigol, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.

### **Atal cwympiadau**

O fewn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod yr holl gleifion wedi cael eu hasesu o ran eu risg o gwympo a bod cynllun gofal priodol wedi cael ei roi ar waith. Yn ogystal, pan oedd angen mwy o oruchwyliaeth ar y cleifion, gwelsom fod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio i'w goruchwyllo.

### **Atal a rheoli heintiau**

Roedd y ward yn lân a gwelsom fod cyfarpar a rennir wedi'i labelu er mwyn dangos ei fod wedi cael ei lanhau a'i ddihalogi. Roedd amserlenni glanhau wedi'u harddangos ac yn dangos bod ardaloedd yn cael eu glanhau yn rheolaidd.

Dywedodd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y ward yn lân iawn.

Gwelsom fod pum ciwbicl ar y ward y gellid eu defnyddio i ofalu am gleifion yr oedd angen eu nyrso ar wahân oherwydd bod risg o haint.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn hawdd ar y ward, ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn colli cyfleoedd i olchi eu dwylo, a all gyfrannu at ledaenu heintiau.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus a gwelsom y staff yn gwisgo PPE wrth roi sylw i'r cleifion. Er bod y staff yn newid PPE rhwng cleifion,

gwelsom nad oeddent yn newid PPE rhwng tasgau weithiau. Gall hyn gynyddu'r risg o groes-heintio.

Nid oedd cyfleusterau newid i'r staff ar y ward y gellid eu defnyddio pe bai brigiad o haint, a all gynyddu'r risg o groes-heintio.

Roedd cynwysyddion addas ar gyfer offer miniog meddygol yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r rhain yn llawn a bod angen eu newid, er mwyn atal y risg o anaf. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn fel y gellid cymryd camau priodol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u rôl mewn perthynas â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod gweithdrefnau rheoli heintiau digonol ar waith.

Roedd polisiau ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a chadarnhaodd y staff y gallent gael gafael ar y rhain. Gwelsom fod nifer o'r rhain wedi'u cymeradwyo a'u rhoi ar waith dros dair blynedd yn flaenorol, megis y polisi ar hylendid dwylo, dihalogi cyfarpar a'r strategaeth rheoli heintiau gyffredinol. Yn ôl y dogfennau, dylent fod wedi cael eu hadolygu. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd adolygiad wedi'i gynnal.

O ran COVID-19, cawsom wybod bod y cyfyngiadau wedi'u llacio ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i'r staff ac ymwelwyr wisgo masg wyneb o hyd a chadw at y rheolau o ran golchi dwylo. Yn ogystal, gofynnwyd i ymwelwyr beidio â dod i'r ward os oedd ganddynt symptomau anadlol newydd neu'n teimlo'n sâl. Os nodwyd bod gan y cleifion COVID-19, cawsant eu trin mewn ciwbiclau.

Dywedodd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym eu bod yn teimlo bod mesurau COVID-19 yn cael eu dilyn, lle y bo'n briodol.

Cawsom wybod bod asesiad risg ar waith ar gyfer safle'r ysbyty pan oedd COVID-19 yn bresennol ar wardiau er mwyn helpu i lywio'r camau yr oedd angen eu cymryd i leihau'r risg o ledaenu'r feirws.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff (10/11) a atebodd y cwestiynau yn yr holiadur yn cytuno bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol ac roedd pob un ohonynt (11/11) yn cytuno bod y sefydliad wedi cyflwyno newidiadau i ymarfer mewn ymateb i COVID-19. Yn ogystal, roedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno y bu cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (10/11) a bod trefniadau dihalogi ar waith ar gyfer yr amgylchedd (10/11).

## **Maeth a hydradu**

O fewn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod asesiad risg maeth yn cael ei gynnal ar gyfer pob claf o fewn 24 awr i'w dderbyn i'r ward. Gwelsom fod gan y cleifion gynlluniau gofal hefyd. Yn ogystal, gwelsom fod y staff yn monitro cymeriant bwyd a hylif y cleifion yn gywir, pan fo angen.

Gwelsom fod y cleifion wedi cael eu hasesu gan ddeietegydd a therapydd lleferydd ac iaith fel y bo'n briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi ar bryd amser cinio yn cael ei ddarparu. Gwelsom fod system addas ar waith i nodi'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt. Hefyd, roedd system addas ar waith i nodi'r cleifion oedd ag anghenion deietegol penodol, y rhai yr oedd angen deiet wedi'i addasu arnynt a'r rhai nad oeddent yn cael bwyta unrhyw beth am resymau diogelwch. Rhoddwyd dewis o brydau i'r cleifion.

Er y gwelsom fod y cleifion yn cael eu paratoi ar gyfer eu prydau, collwyd cyfleoedd i'r cleifion olchi eu dwylo cyn cael eu pryd.

Roedd y staff gweini yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol yn ystod amser bwyd, a gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff er mwyn helpu i gydlynu'r gwaith o weini'r prydau. Roedd y prydau bwyd a welsom yn cael eu gweini yn edrych yn flasus.

Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i weini prydau poeth i'r cleifion mewn da bryd cyn i'r prydau oeri. Hefyd, gwelsom y staff yn helpu'r cleifion i fwyta eu prydau yn unol â'r anghenion a aseswyd ar eu cyfer. Yn ogystal, defnyddiodd y staff ddulliau i helpu i gadw dillad y cleifion yn lân a chynnal eu hurddas.

Gwelsom enghraifft dda o ystyried ffyrdd o fodloni gofynion penodol claf o ran prydau.

Roedd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur i gleifion yn cytuno bod y staff yn eu helpu yn ystod amser bwyd, os oedd angen, a bod amser ganddynt i fwyta ar eu cyflymder eu hunain.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a chadarnhaodd y staff y gallent gael gafael arno. Gwelsom fod y polisi wedi cael ei gymeradwyo a'i roi ar waith ym mis Hydref 2014. Yn ôl y ddogfen, dylai fod wedi cael ei hadolygu yn 2017. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd adolygiad wedi'i gynnal.

Gwelsom fod siartiau meddyginiaeth Cymru gyfan yn cael eu defnyddio ar y ward. Roedd y rhain wedi cael eu cwblhau i ddangos y meddyginiaethau a ragnodwyd, pryd y cawsant eu rhagnodi a phryd y rhoddwyd meddyginiaethau. Gwelsom fod codau wedi cael eu defnyddio'n briodol i ddangos y rheswm pam na ellid rhoi meddyginiaethau.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd priodol, gan gynnwys y rhai yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Hefyd, gwelsom gofnodion yn dangos bod tymheredd yr ystafell storio meddyginiaeth a'r oergell meddyginiaethau wedi cael ei wirio'n rheolaidd.

Roedd Cyffuriau a Reolir, sydd â gofynion rheoli llym a phenodol iawn, yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y stoc yn cael ei gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom arferion amrywiol pan oedd y staff nyrsio yn rhoi meddyginiaethau. Ar un achlysur, gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddiogel gan aelod o'r staff nyrsio, drwy gynnwys y claf yn y broses ac esbonio pan fo'n briodol. Nodwyd bod yr arfer hon yn ganmoladwy. Fodd bynnag, ar achlysur arall, cafodd meddyginiaethau eu rhoi yn hwyrach na'r hyn a ragnodwyd. Er y rhoddwyd rheswm priodol, gwelsom nad oedd yr union amser y rhoddwyd y feddyginiaeth wedi'i gofnodi. Roedd hyn yn golygu y gallai'r claf fod wedi cael dos dilynol yn gynt nag y dylai. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda staff y ward a gymerodd gamau priodol.

Pan oedd meddyginiaethau yn cael eu rhoi, gwelsom fod y staff yn ddiwyd wrth sicrhau nad oedd trolïau meddyginiaeth heb eu cloi yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd modd cadw'r trolïau meddyginiaeth a ddefnyddiwyd ar y ward yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, er eu bod wedi'u cloi, er mwyn helpu i'w hatal rhag cael eu symud o'r ward heb awdurdod.

Yn ogystal, gwelsom nad oedd modd cloi dau gwpwrdd na'r oergell meddyginiaeth yn yr ystafell drin (dan glo) oherwydd bod y cloeon wedi torri. Gwnaethom roi gwybod i reolwr y ward am hyn fel y gellid cymryd camau addas i sicrhau bod y meddyginiaethau yn ddiogel.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod meddyginiaethau a ddylai gael eu storio mewn cwpwrdd y gellir ei gloi, oergell y gellir ei chloi neu droli y gellir ei gloi, yn cael eu storio mewn ffordd addas i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod. Roedd hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafael ar feddyginiaeth nad yw ar eu cyfer a'i llyncu.

Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith ynglŷn â'r materion uchod. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith, ac roedd y rhain yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Cawsom wybod bod cleifion ar y ward a oedd yn destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Yn y sampl o gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt, gwelsom fod un o'r awdurdodiadau wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr awdurdodiad i amddifadu'r claf o'i ryddid yn ddilys mwyach. Hysbyswyd yr uwch-aelodau o'r staff am hyn fel y gellid cymryd camau fel y bo'n briodol.

Roedd hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd i'r staff. Dangosodd data a ddarparwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff fod hyfforddiant diogelu dwy ran o dair o staff y ward yn gyfredol. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd llwyr fod y staff yn uwchgyfeirio pryderon diogelu i reolwr y ward mewn modd amserol.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur (11/11) wrthym, pe bai ganddynt bryder am ymarfer anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Yn ogystal, dywedodd pob aelod o'r staff (11/11) wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn mynegi pryderon. Fodd bynnag, pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, dywedodd bron 50% o'r staff (5/11) wrthym nad oeddent yn gwybod, ac roedd y gweddill naill ai'n hyderus (4/11) neu ddim yn hyderus (2/11).

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis cymhorthion arbenigol i leddfu pwysau, cymhorthion symudedd, teclynnau codi, comodau a pheiriannau monitro.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol.

Gwelsom fod y staff glanhau cyfarpar a rennir yn ddiwyd er mwyn atal achosion o groes-heintio.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar y ward.

Fodd bynnag, yn ogystal â'r gwelliannau yr oedd angen eu gwneud mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau a rheoli gwybodaeth ysgrifenedig yn ymwneud â chleifion, gwelsom hefyd fod angen gwella agweddau ar y gofal ar ôl cael strôc a ddarperir yn yr ysbyty.

Gwelsom fod y staff wedi asesu'r cleifion gan ddefnyddio adnoddau asesu nyrsio cydnabyddedig er mwyn helpu i nodi risgiau yn gynnar, megis briwiau pwyso a niwed i feinweoedd a chwympiadau. Yn ogystal, nodwyd bod cynlluniau gofal priodol wedi cael eu rhoi ar waith.

Hefyd, nodwyd bod y ddogfennaeth Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn cael ei defnyddio a'i chwblhau. Yn ogystal, roedd yr Adnodd Sgrinio Sepsis ar gael ynghyd â llwybr sepsis a bwndel gofal 'Sepsis Six' cysylltiedig.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom adolygu data'r Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel (SSNAP) ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022 mewn perthynas â pherfformiad yr ysbyty o ran gofal ar ôl strôc. Dangosodd hyn nad oedd y cleifion yn cael gofal ar ôl strôc yn unol â'r Canllawiau Clinigol Cenedlaethol bob amser.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff fwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion a oedd wedi cael ei osod ar y ward i helpu i gyfleu a rhannu gwybodaeth allweddol am ddiogelwch y cleifion ymhlith staff y ward ac aelodau o'r tîm aml-ddisgyblaethol.

Gwelsom fod system wedi'i datblygu gan y staff i'w hatgoffa pan oedd angen ail-leoli cleifion unigol ac edrych ar gyflwr eu croen. Roedd yr arferion hyn yn ganmoladwy er mwyn hyrwyddo gofal amserol ac effeithiol i gleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd.

Hefyd, nododd yr uwch-aelodau o'r staff fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu taflen wybodaeth ddefnyddiol am y ward ar gyfer y cleifion a gofalwyr. Yn ogystal, disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff y diwrnodau astudio a hyfforddiant ar y ward i'r staff ar ofal yn ymwneud â strôc a gaiff eu hailgyflwyno yn y dyfodol agos.

Roedd yr uwch-aelodau o'r staff eisoes yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â gofal ar ôl cael strôc (o'r data SSNAP) a gwnaethant ddisgrifio'r gwaith sylweddol a oedd yn mynd rhagddo i wella'r gwasanaeth strôc a ddarperir i'r cleifion. Roedd y gwaith hwn yn cael ei gydgysylltu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen dynodedig er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r bwrdd iechyd. Roedd yn amlwg o'n sgysiau â'r staff a oedd yn arwain y gwaith hwn eu bod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau yn hyn o beth.

## **Cadw cofnodion**

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â rheoli'r wybodaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn cael gafael ar wybodaeth o gofnodion meddygol y cleifion a thrwy gyfrifiadur hefyd. Roedd adegau pan nad oedd y staff wedi allgofnodi o'r system gyfrifiadurol a oedd yn peri risg bosibl i gyfrinachedd y cleifion. Er bod nodiadau'n cael eu cadw mewn trolïau, nid oedd y rhain wedi'u cloi'n ddiogel bob amser er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Hefyd, gwelsom fod nodiadau rhai cleifion wedi'u gadael allan ar gabinet ffeilio ar y ward.

Roedd y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion i'w weld yn glir ar y ward. Er bod cyfleuster i guddio enwau'r cleifion, nid oedd hwn yn cael ei ddefnyddio. Cymerodd yr uwch-aelodau o'r staff gamau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn, gan atgoffa'r staff am bwysigrwydd defnyddio'r cyfleuster hwn i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Hefyd, gwelsom fod gwastraff cyfrinachol yn cael ei storio mewn cynhwysydd agored, gan beri risg bosibl i gyfrinachedd y cleifion. Hysbyswyd y staff am hyn fel y gellid gwneud trefniadau i storio'r gwastraff yn ddiogel.

Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol ac roeddent yn dangos tystiolaeth o'r ffordd roedd penderfyniadau wedi'u gwneud ar ofal y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y taflenni llofnodion a ddefnyddiwyd ar y ward i adnabod y staff a oedd yn gwneud nodiadau yn y cofnodion yn gyflawn. Felly, gall fod yn anodd nodi ac olrhain y staff a oedd wedi gwneud nodiadau yn y cofnodion ac a fu'n rhan o benderfyniadau mewn perthynas â gofal claf.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu adborth a barn gan y staff sy'n gweithio yn yr adran. Cwblhawyd cyfanswm o 15 gan amrywiaeth o staff, gan gynnwys nyrsys, gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol, gweithwyr cymorth a staff gweinyddol. Nid oedd pob un o'r ymatebwyr wedi cwblhau'r holiadur hyd at y diwedd.

Cymysg fu ymatebion y staff. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'n ymddangos nad oes digon o staff ar y ward bob amser ac nid oes digon o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gefnogi'r cleifion, gan orfod dibynnu ar staff asiantaeth nad ydynt yn deall anghenion y cleifion.”*

*“[Mae angen] mwy o wybodaeth i berthnasau. Llyfrynnau, taflenni, canllawiau cyfeirio.”*

*“[Mae angen] cymorth iechyd i berthnasau.”*

Gwnaethom ofyn i'r staff beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd awgrymiadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Dull mwy democrataidd o wneud penderfyniadau ac adborth gan gleifion. Rwy'n teimlo bod rhai aelodau o'r staff yn cael eu diweddarau fwy nag eraill.”*

*“...gan fod y ward wedi symud lleoliad oherwydd COVID, rydym wedi colli lle therapi ac nid yw amgylchedd y ward yn ffafriol i therapi effeithiol gan ei bod yn swllyd yn aml ac yn brysur iawn...”*

*“Mae llif drwy'r ward strôc yn broblem gan ei bod yn uned gyfunol ac nid oes gennym dimau strôc penodol yn y gymuned na phrosesau rhyddhau cynnar â chymorth er mwyn rhyddhau cleifion yn amserol.”*

## Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu.

Nododd yr uwch-aelodau o'r staff fod y ward yn cael ei chynrychioli mewn gwahanol gyfarfodydd fel rhan o drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer cofnodi a monitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, roedd Grŵp



Gorchwyl a Gorffen ar wahân wedi'i sefydlu a disgrifiwyd camau cadarnhaol i wella'r gwasanaeth strôc a ddarperir i boblogaeth y bwrdd iechyd.

Fodd bynnag, dylid adolygu systemau'r ward ar gyfer olrhain cynnydd camau gweithredu a nodir mewn cyfarfodydd staff a phan gaiff materion eu huwchgyfeirio, megis materion yn ymwneud ag ystadau, er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn dangos bod camau amserol yn cael eu cymryd.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd bod rheolwyr y ward a'r ysbyty yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phroses arolygu AGIC. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Ar y cyfan, gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol am eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Cytunodd y mwyafrif o'r staff (12/14) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur y gellid dibynnu ar eu rheolwyr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith. Yn ogystal, roedd yr holl staff (57/71) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno bod eu rheolwr yn gefnogol mewn argyfwng personol. Er bod y rhan fwyaf o'r staff (9/14) a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod eu rheolwr yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith, roedd rhai (5/14) yn anghytuno.

Roedd yr holl staff (12) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno eu bod yn gwybod pwy yw'r uwch-reolwyr ac yn cytuno eu bod yn weladwy. Roedd y rhan fwyaf o'r staff (9/12) a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r staff (9/12) yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth. Pan ofynnwyd a yw'r uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, cafwyd ymatebion cymysg gan y staff, gyda 50% o'r staff (6/12) a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno, a 50% yn anghytuno.

Pan ofynnwyd yn yr holiadur a oedd yr ysbyty yn helpu'r staff i nodi a datrys problemau, roedd y rhan fwyaf o'r staff (8/14) a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno. Fodd bynnag, roedd rhai (6/14) yn anghytuno. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o'r staff (8/13) a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod yr ysbyty yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen. Fodd bynnag, roedd rhai (5/13) yn anghytuno.

Roedd y mwyafrif o'r staff (13/14) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno bod yr ysbyty yn annog gwaith tîm. Roedd y rhan fwyaf o'r staff (12/14) yn cytuno bod gwaith partneriaeth ag adrannau eraill yn effeithiol. Roedd ychydig llai (11/14) yn cytuno bod gwaith partneriaeth â sefydliadau allanol yn effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff (9/14) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno mai gofal cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio, roedd y mwyafrif o'r staff (12/14) yn cytuno.

## Staff ac Adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom feddygon, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i ofal iechyd, staff cymorth gofal iechyd, staff gweinyddol, staff arlwyo/gweini a staff cadw tŷ yn gweithio ar y ward.

Gwnaethom arsylwi ar rownd bwrdd a gwelsom feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol a oedd yn gallu cyfrannu at drafodaethau ynghylch gofal y cleifion a chynllunio triniaeth. Gwelsom dystiolaeth dda o waith tîm amlddisgyblaethol ac roedd y meddyg ymgynghorol arweiniol yn hyrwyddo gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Gwelsom fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod nifer priodol o staff â chymysgedd sgiliau priodol yn gweithio ar bob sifft yn unol ag anghenion y cleifion. Disgrifiwyd diffygion yn y lefelau staffio a gwelsom fod dull gweithredu ar gyfer yr ysbyty cyfan i leoli staff i'r ardaloedd hynny yn ôl y risg. Hefyd, gwelsom staff asiantaeth yn gweithio ar y ward oherwydd aciwtedd y cleifion.

Roedd manylion am y lefelau staffio wedi'u harddangos ar y ward a chadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff fod y rhain yn cael eu hadolygu bob chwe mis.

Pan ofynnwyd a oedd digon o staff iddynt allu gwneud eu gwaith yn briodol, roedd y mwyafrif o'r staff (9/12) a gwblhaodd holiadur yn anghytuno. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif (12/15) yn cytuno bod cymysgedd sgiliau digonol yn y tîm.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff (13/15) a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn ymgymryd â'u rolau. Dywedodd y gweddill (2/15) wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant rhannol. Gwnaethom ofyn a oedd unrhyw hyfforddiant arall a fyddai'n ddefnyddiol i'r staff. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Caiff yr holl hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rôl ei ddarparu.”*

*Hyfforddiant arbenigol ar ofal ar ôl cael strôc. Cathetereiddio.*

*Hyfforddiant ffurfiol ar diwbiau nasogastrig.”*

*“Hyfforddiant pellach ar ddeall sganiau CT mewn perthynas â chleifion strôc a'u namau.”*

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu hyfforddiant neu eu datblygiad wedi'u helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a diogel, a'u helpu i roi gwell profiad i'r cleifion. Yn ogystal, roedd y mwyafrif o'r staff (13/15) yn cytuno bod eu hyfforddiant wedi'u helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gofynion proffesiynol.

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff wybodaeth am gydymffurfiaeth y staff â rhaglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd ar adeg ein harolygiad. Ar y cyfan, gwelsom fod cydymffurfiaeth dda â'r rhaglen.

Fodd bynnag, o'r data a ddarparwyd, nodwyd bod cydymffurfiaeth yn wael â hyfforddiant dadebru gorfodol, hyfforddiant symud a chodi a chario diogel a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Dangosodd gwybodaeth am hyfforddiant ar y ward fod hyfforddiant dadebru rhwng 22.22% a 53.84% o staff cymwys y ward yn gyfredol a bod hyfforddiant symud a chodi a chario (wyneb yn wyneb) 12.5% o'r staff yn gyfredol. Yn ogystal, dangosodd gwybodaeth am hyfforddiant staff therapi galwedigaethol fod hyfforddiant dadebru 0% o'r staff cymwys yn gyfredol, roedd hyfforddiant symud a chodi a chario (wyneb yn wyneb) 50% yn gyfredol, ac roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau 40% yn gyfredol.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod digon o'r staff sy'n gweithio ar y ward a'r therapyddion galwedigaethol sy'n ymweld â'r ward y sgiliau gofynnol a chyfredol i ddadebru'r cleifion yn effeithiol a defnyddio technegau symud a chodi a chario diogel wrth gynorthwyo'r cleifion. Yn ogystal, ni chafodd AGIC sicrwydd bod gan y staff therapi galwedigaethol y wybodaeth gyfredol ofynnol i hyrwyddo prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol.

Roedd hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion pe bai argyfwng (claf yn llewygu) a hefyd i'r cleifion na allant symud yn annibynnol. Roedd hefyd yn achosi risg bosibl o ran rheoli heintiau.

Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith ynglŷn â'r mater uchod. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff (13/15) a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y gweddill (2/15) wrthym nad oeddent wedi cael arfarniad. Yn ogystal, dywedodd yr holl staff a atebodd y cwestiwn hwn wrthym eu bod wedi cael eu cefnogi gan eu rheolwr i ymgymryd â hyfforddiant a nodwyd fel rhan o'u harfarniad.

Roedd y mwyafrif o'r staff (9/11) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r staff (8/11) yn cytuno bod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant. Hefyd, roedd y mwyafrif o'r staff (9/11) yn cytuno bod cymorth llawn yn

cael ei gynnig iddynt wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol. Roedd y mwyafrif o'r staff (10/11) hefyd yn ymwybodol bod cymorth Therapi Galwedigaethol ar gael. Dywedodd y mwyafrif o'r staff (9/10) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith. Roedd yn well gan y gweddill beidio â dweud. Yn ogystal, dywedodd yr holl staff (10/10) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur wrthym fod mynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod bocsys cardbord ar y llawr y tu allan i'r ystafell therapi.	Roedd y rhain yn peri risg bosibl o dân ac yn rhwystro'r llwybr dianc rhag tân, a allai fod wedi amharu ar allu'r cleifion a'r staff i adael yr ardal hon yn ddiogel.	Gwnaethom roi gwybod i'r uwch-aelodau o'r staff am ein canfyddiadau.	Trefnodd yr uwch-aelodau o'r staff i'r bocsys gael eu symud ar unwaith.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Tywysoges Cymru - Ward 5

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y meddyginiaethau a ddefnyddir ar Ward 5 yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn helpu i atal mynediad heb awdurdod.	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Sicrhau bod gan yr holl gypyrddau a'r oergell meddyginiaeth yn ystafell drin y ward gloeon sy'n gweithio.</p> <p>Sicrhau bod y trolïau meddyginiaeth symudol ar y ward strôc yn cael eu gosod yn sownd yn y wal pan na fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau na chânt eu symud heb awdurdod.</p>	<p>Uwch-nyrs/ Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs/ Rheolwr y Ward/ Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Wedi'i roi ar waith a'i gwblhau ar unwaith</p> <p>Cam gweithredu wedi'i gwblhau - mae'r trolïau meddyginiaeth ar ward 5 bellach wedi'u clymu. Erbyn mis Mawrth 2023 - bydd pob ward ar safle Tywysoges Cymru wedi cael ei harchwilio er mwyn sicrhau bod y trolïau</p>

				yn cael eu cadw'n ddiogel.
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi cadarnhad i AGIC fod y swyddog diogelwch tân yn cytuno â storio cyfarpar y tu allan i'r ystafell therapi ar Ward 5.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Sicrhau bod yr asesiad risg tân ar gyfer Wardiau 5 a 6 wedi'i ddiweddarau.  Wedi'i ddiweddarau a'i gynnwys fel tystiolaeth.	Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Acíwt / Swyddog Tân	[Wedi'i ddarparu i AGIC]
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gwella cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â hyfforddiant dadebru, hyfforddiant symud a chodi a chario a hyfforddiant atal a rheoli heintiau</li> <li>hyrwyddo diogelwch cleifion yn y cyfamser.</li> </ul>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p> <p>Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p> <p>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Cynyddu'r ddarpariaeth i dîm y ward strôc gwblhau hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Hyfforddiant dadebru:</p> <p>Mae'r sesiynau cyntaf sydd ar gael ym mis Mawrth 2023 ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys wedi cael eu dyrannu i'r staff nyrsio cofrestredig; mae'r gyfradd gydymffurfio bresennol yn 53.84%</p> <p>Mae dyddiadau wedi'u pennu ym mis Chwefror 2023 i'r holl Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd gwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol.</p> <p>Tîm hyfforddiant dadebru i adolygu cydymffurfiaeth gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol o fewn y</p>	<p>Uwch-reolwr/Rheolwr y Ward a'r Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Dadebru</p>	<p>Erbyn diwedd mis Mawrth 2023</p> <p>Erbyn diwedd mis Chwefror 2023</p>



gwasanaethau strôc (ward 5) â hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol.

Camau lliniaru - Mae aelod o staff cofrestredig sy'n cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant ar ddyletswydd bob amser a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy restr staff nes y caiff yr holl staff eu hyfforddi.

Hyfforddiant Codi a Chario:

Sicrhau bod darpariaeth ychwanegol ar gael i staff y Ward Strôc. Mae gan Ysbyty Tywysoges Cymru addysgwyr ymarfer a hyfforddwyd yn ddiweddar i allu darparu sesiynau ac mae'r sesiynau hyn bellach wedi cael eu trefnu ar gyfer yr holl staff.

Camau lliniaru - mae 79% o'r staff wedi cwblhau'r cwrs dysgu ar-lein

Hyfforddiant Rheoli Heintiau:

Ar gael ar y system Cofnodion Staff Electronig - mae'r holl staff nyrsio a gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol

Pennaeth Nyrsio

Uwch-reolwr/Rheolwr y Ward/ Pennaeth Nyrsio ac Arweinwyr

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023

Erbyn diwedd mis Chwefror 2023

nad ydynt yn cydymffurfio wedi cael amser i sicrhau eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant.

Proffesiynau  
Iechyd Perthynol

Camau lliniaru - Mae'r holl staff ar y ward yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Caiff archwiliadau hyleneid dwylo, noeth o dan y penelin a chyfarpar diogelu personol eu cynnal yn rheolaidd ar y ward.

Bydd y timau yn gweithio i wella cydymffurfiaeth â'r holl hyfforddiant gorfodol fel bod y gyfradd gydymffurfio dros 85% a bydd uwch-nysys a nysys arwain yn goruchwyllo hyn yn glir mewn cyfarfod rhestrau adnoddau dynol misol ar y safle lle caiff Cofnodion Staff Electronig eu hadolygu a chofnodir camau clir ar gyfer gwella. Mae copi o hyn ar gyfer mis Ionawr 2023 wedi'i gynnwys.

Bydd trefniadau cadarn i fonitro hyn yn cael eu cynnal drwy gyfarfodydd sicrwydd Ansawdd, Risg a Phrofiad y Claf y Grŵp Gofal heb ei Drefnu a'r Grŵp

Erbyn diwedd mis  
Chwefror 2023

Gofal Diagnosteg, Therapiau ac  
Arbenigeddau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Emma James**

**Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal heb ei Drefnu**

**Dyddiad: 6 Chwefror 2023**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Tywysoges Cymru - Ward 5

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu'r cyfarpar a ddarperir i hwyluso cyfathrebu rhwng y staff a'r cleifion.	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae cymhorthion clyw Sonic ar gael ar y ward ar gyfer y cleifion sy'n drwm eu clyw ac mae hyfforddiant cadarn i'r staff yn mynd rhagddo.  Darperir hyfforddiant i sicrhau bod y staff yn gwybod sut mae adnabod cleifion sydd angen gwasanaeth cyfieithu a sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Erbyn 3 Ebrill 2023
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae posterï ac arwyddion yn cael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Ar waith - anelu at ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2023

<p>gymerwyd i hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar y ward.</p>		<p>chanllawiau'r 'Cynnig Rhagweithiol'.</p> <p>Mae cynllun wedi'i dargedu ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o 100% â'r cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar y system Cofnodion Staff Electronig - mae ar 46% ar hyn o bryd.</p> <p>Mae modd adnabod y staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd drwy eu bathodynau/gwisgoedd. Er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei adolygu, bydd y pwnc hwn ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y ward.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y gall y cleifion ar y ward a'u gofalwyr gael gfael ar wybodaeth ysgrifenedig am ofal ar ôl cael strôc yn hawdd.</p>	<p>Safon 4.2 Gwybodaeth i Gleifion</p>	<p>Mae gwaith wedi dechrau ar ailfrandio Ysbyty Tywysoges Cymru - bydd byrddau gwybodaeth wardiau yn gysylltiedig â'r ward strôc.</p> <p>Mae rheseli wal i arddangos taflenni gwybodaeth y</p>	<p>Rheolwr y Ward/Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Strôc</p>	<p>Erbyn 28 Ebrill 2023</p>

		<p>Gymdeithas Strôc wedi cael eu harchebu.</p> <p>Mae pecynnau'r Gymdeithas Strôc ar gael ar y ward ac fel rhan o restr wirio'r cleifion - bydd pob perthynas yn cael un. Caiff cofnodion eu cadw.</p> <p>Mae cyfarfod staff y Gymdeithas Strôc â'r cleifion a pherthnasau wedi'i drefnu. Caiff ei gynnal bob wythnos a bydd yn helpu pobl i adfer ar ôl cael strôc.</p> <p>Rheolwr y Ward i roi'r llyfr 'Rebuilding your life after stroke' ar fenthyg i berthnasau/cleifion fel rhan o'r sesiwn cwrdd a chyfarch a chrosawu i Ward 5.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu'r cyfleusterau therapi a ddefnyddir gan y cleifion ar y ward a chymryd camau addas i sicrhau eu bod yn ddigonol er</p>	<p>Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>Safon 6.1 Cynllunio Gofal i</p>	<p>Oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gofynion capasiti cynyddol dros y gaeaf, symudwyd gwasanaethau therapi (gan gynnwys gwasanaethau strôc) i ward 16 gerllaw.</p>	<p>Arweinwyr Therapi</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>mwyn darparu therapi i'r cleifion ar ôl cael strôc</p>	<p>Hybu Annibyniaeth</p>	<p>Mae camau lliniaru cychwynnol yn cynnwys darparu un ystafell glinigol. Gyda'r tîm lleferydd ac iaith yn defnyddio lle clinigol ar gyfer sesiynau penodol yn ystod yr wythnos.</p> <p>Nawr bydd arweinwyr gwasanaethau clinigol yn ceisio creu opsiwn tymor canolig a pharhaol ar gyfer ardal therapi ddigonol o ystyried yr anghenion capasiti parhaus o ran cleifion mewnol ar draws safle'r ysbyty.</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol Therapiau, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Grŵp Gofal heb ei Drefnu a'r Cyfarwyddwr Nyrsio.</p>	<p>Erbyn 30 Mehefin 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y gall y cleifion ar y ward a'u gofalu gael gfael ar wybodaeth am broses gwyno'r bwrdd iechyd yn hawdd a ffynonellau cymorth a chefnogaeth presennol mewn perthynas â chodi pryder neu wneud cwyn.</p>	<p>Safon 6.3 Gwrando ar Adborth a Dysgu ohono</p>	<p>Yn gysylltiedig â'r ymateb blaenorol - bydd diweddarau byrddau'r ward yn sicrhau bod posteri yn y coridor yn adlewyrchu canllawiau Gweithio i Wella CTM. Bydd manylion cyswllt Rheolwr y Ward ar gael hefyd.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn 28 Ebrill 2023</p>

		Mae posteri bellach wedi'u gosod yn dangos codau QR ar gyfer rhoi adborth a rhoi gwybod am bryderon.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wella'r system ar gyfer rhoi diweddariadau rheolaidd i'r staff ar adborth cleifion a sut y defnyddir hyn i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.	Safon 6.3 Gwranddo ar Adborth a Dysgu ohono	Yn gysylltiedig â'r diweddariad blaenorol, mae codau QR ar gyfer adborth wedi cael eu diweddarau er mwyn galluogi'r holl staff i ddefnyddio system adborth Civica.  Adborth i gael ei rannu â'r holl staff, drwy negeseuon e-bost, cyfarfodydd ac wedi'u harddangos ar fyrddau'r ward.  Mae cyfarfodydd ar gyfer staff y ward wedi'u trefnu ar adegau rheolaidd. Cofnodion i gael eu cymryd gyda chamau gweithredu yn cael eu dirprwyo a'u bwydo'n ôl yng nghyfarfod nesaf staff y ward.	Rheolwr y Ward/Prif nyrs/Uwch-nyrs	Erbyn 31 Mai 2023



<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i adolygu'r trefniadau storio ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol.</p>	<p>Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Gwiriadau dyddiol o ardal y ward i gael eu cynnal gan Reolwr y Ward er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei storio mewn ffordd ddiogel yn unol â'r asesiad risg tân wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Proses barhaus i reoli'r stoc i gael ei chynnal ar y cyd â ward 6 - i ryddhau capasiti posibl er mwyn storio eitemau yn fwy effeithiol yn yr ardal glinigol.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn 31 Mawrth 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod cloch alw ar gael i'r cleifion pan fo angen.</p>	<p>Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Mae system ar waith i'r staff roi gwybod i Reolwr y Ward ar unwaith os bydd clychau galw wedi torri/ar goll.</p> <p>Mae clychau galw sbâr ar gael ar y safle pe bai un yn torri.</p> <p>Mae rheolwr y ward yn deall y broses o atgyweirio eitemau fel clychau galw, neu ddarparu rhai newydd, a sut i uwchgyfeirio materion i'r uwch-dîm. Caiff materion sy'n effeithio ar asesiad</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Cam gweithredu wedi'i gwblhau</p>

		risg ac iechyd a diogelwch ward eu codi yn y cyfarfod Safe 2 Start dyddiol.		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>atgoffa'r staff i olchi eu dwylo yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd</li> <li>sicrhau bod blychau offer miniog yn cael eu newid pan fo angen.</li> </ul>	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<p>Mae cynllun cadarn ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â hyfforddiant rheoli heintiau lefel 2 - y targed yw 100%.</p> <p>Mae Rheolwr y Ward wedi sicrhau bod gel alcohol ar gael wrth ymyl pob gwely.</p> <p>Mae'r uwch-staff nyrsio yn goruchwyllo ac yn achub ar bob cyfle i atgoffa'r staff o'r angen i ddihalogi dwylo yn briodol.</p> <p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs i gynnal hapwiriadau o'r ardal bob wythnos. Defnyddir adnodd archwilio i fonitro cydymffurfiaeth a rhoddir ymyriadau wedi'u targedu ar waith yn ôl y gofyn, gyda chymorth cydweithwyr atal a rheoli heintiau.</p>	Rheolwr y Ward/Prif nyrsys/Uwch-nyrs	<p>Erbyn 28 Ebrill 2023</p> <p>Erbyn 31 Mawrth 2023</p>

		<p>Mae Rheolwr y Ward wedi archwilio'r blychau offer miniog a bydd hyn yn parhau bob wythnos. Caiff yr holl staff eu haddysgu ar yr un pryd a chaiff gwybodaeth ei hatgyfnerthu yng nghyfarfodydd trosglwyddo'r staff a chyfarfodydd y ward.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod polisiau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu yn unol â'i reolau amllder.</p> <p>Os bydd dyddiadau adolygu polisiau wedi mynd heibio, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i flaenoriaethu adolygiadau.</p>	<p>Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Ar-lein yn unig y bydd yr holl staff yn cael gafael ar bolisiau'r bwrdd iechyd.</p> <p>Mae gwaith manwl yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd i sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu os yw'n hen. Mae hyn yn cael ei arwain gan y Grŵp Gofal heb ei Drefnu sydd newydd ei ffurfio. Byddai unrhyw bolisiau y nodir bod eu dyddiad adolygu wedi mynd heibio, ond sy'n berthnasol yn glinigol o hyd, yn cael eu cyfeirio at y grŵp polisi priodol er mwyn eu diweddarau a'u cymeradwyo.</p>		

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn rhoi gwybod i'r uwch-aelodau o'r staff am bryderon diogelu fel y bo'n briodol.</p>	<p>Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg</p>	<p>Rheolwr y Ward i roi system ar waith lle gall y staff rannu pryderon â'r uwch-aelodau o'r staff.</p> <p>Mae cynllun wedi'i dargedu ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant diogelu lefel 2 a 3.</p> <p>Mewn cyfarfodydd trosglwyddo a chyfarfodydd tîm y ward, bydd rheolwr y ward/prif nyrs/uwch-nyrs yn sicrhau bod cyfle i rannu pryderon/materion diogelu.</p> <p>Rheolwr y Ward i gymryd rhan mewn rownd bwrdd a chyfarfodydd tîm amlldisgyblaethol er mwyn monitro pryderon a godir.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Prif nyrsys/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn 31 Mai 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd i'r staff yr ymdrinnir â'r pryderon a godir ganddynt.</p>	<p>Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg</p> <p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Bydd Rheolwr y Ward yn sicrhau bod cyfle i'r staff fynegi pryderon a bydd yn rhoi adborth i'r staff ar ganlyniadau cyfarfodydd diogelu.</p> <p>Diogelu i gael ei ychwanegu fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y ward.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Erbyn 31 Mawrth 2023</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn trin gwybodaeth y cleifion mewn ffordd sy'n diogelu eu cyfrinachedd.</p>	<p>Safon 3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae cynllun hyfforddi ar waith er mwyn i'r holl staff gydymffurfio â'r hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth.</p> <p>Mae Rheolwr y Ward wedi dechrau cynnal hapwiriadau bob wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys sicrhau bod y staff wedi allgofnodi o gyfrifiaduron a bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chuddio ar yr e-fwrdd gwyn.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Prif nyrs/Gweinyddydd y Ward</p>	<p>Erbyn 28 Ebrill 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod modd adnabod y staff sy'n gwneud cofnodion mewn nodiadau yn hawdd.</p>	<p>Safon 3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae'r broses o roi dogfennaeth ddigidol Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ar waith wedi dechrau ym mhob rhan o Ysbyty Tywysoges Cymru, a fydd yn sicrhau bod modd adnabod unrhyw gofnodion yn hawdd.</p> <p>Caiff hyn ei archwilio'n wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r taflenni llofnodion.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn 28 Ebrill 2023</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu systemau'r ward ar gyfer olrhain cynnydd camau gweithredu a nodir mewn cyfarfodydd staff a phan gaiff materion eu huwchgyfeirio, er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae cyfarfodydd staff rheolaidd ar waith. Bydd rheolwr y ward yn sicrhau y caiff cofnodion eu cymryd ac y caiff camau gweithredu eu nodi a'u neilltuo. Caiff y camau gweithredu eu hadolygu ar ddechrau'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu rhannu â'r holl staff a byddant ar gael ar y ward hefyd.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs</p>	<p>Erbyn 31 Mai 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ymateb i'r sylwadau llai ffafriol a gofnodwyd yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae Rheolwr y Ward a'r Uwch-nyrs wedi achub ar y cyfle i rannu'r sylwadau a gofnodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth â'r staff. Mewn ymateb i hyn, maent yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â recriwito, presenoldeb mewn digwyddiadau effeithlonrwydd ac nad oes oedi wrth recriwtio i swyddi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.</p>	<p>Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs/Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Strôc</p>	<p>Erbyn 30 Mehefin 2023</p>

		<p>Adolygu rotas er mwyn sicrhau y gofynnir am staff ategol mewn da bryd.</p> <p>Cwblhau adolygiadau o aciwtedd/gofal diogel ac adolygiadau o lefelau staffio diogel.</p> <p>Creu system y gall staff ei defnyddio i wneud awgrymiadau cyfrinachol ar sut i wella'r ward.</p> <p>Ystyried barn y staff yng nghyfarfodydd y ward - awgrymiadau'r staff ar gyfer datrys problemau, e.e. cylchoedd Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (PDSA).</p>		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Emma James**

**Swydd: Y Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Gofal heb ei Drefnu**

**Dyddiad: 27 Mawrth 2023**